# MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL

## Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ("Memorandwm") hwn o dan Orchymyn Sefydlog 30A.2. Mae Gorchymyn Sefydlog 30A yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm a chyflwyno Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad" os yw offeryn statudol y DU yn gwneud darpariaeth, mwn perthynas â Chymru, i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Gosodwyd Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017 gerbron y Senedd ar 5 Rhagfyr 2017 ac maent yn dod i rym yn rhannol ar 1 Ionawr 2018 a'r dibenion sy'n weddill ar 1 Ebrill 2018. Mae'r Rheoliadau ar gael yn:

   http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1200/contents/made

### Crynodeb o'r Rheoliadau a'u hamcan

3. Amcan Rheoliadau Rheoli Mercwri (Gorfodi) 2017 ("y Rheoliadau Gweithredu") yw gweithredu yng nghyfraith y DU, Reoliad UE 2017/852 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fercwri ("Rheoliad yr UE"). Mae Rheoliad yr UE hwn yn gweithredu ar lefel Cymuned y Confensiwn Minamata ar Fercwri 2013, a lofnodwyd gan yr UE ac Aelod Wladwriaethau. Mae'r Rheoliadau Gweithredu wedi'u gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac maent yn berthnasol i'r DU gyfan.

4. Mae mercwri'n sylwedd gwenwynig, ac mae Rheoliad yr UE yn pennu mesurau ac amodau ynghylch defnyddio, storio a masnachu mercwri, cyfansoddion mercwri a chymysgeddau mercwri, gweithgynhyrchu, defnyddio a masnachu cynhyrchion sydd â mercwri wedi'i ychwanegu atynt, a rheoli gwastraff mercwri, er mwyn diogelu, i lefel uchel, iechyd pobl a'r amgylchedd rhag allyriadau a gollyngiadau gwneud o fercwri a chyfansoddion mercwri.

5. Yn arbennig, mae Rheoliad yr UE yn gwahardd ac yn cyfyngu ar fewnforio, allforio, defnyddio a storio mercwri, cyfansoddion mercwri a chymysgeddau mercwri. Mae hefyd yn gwahardd ac yn cyfyngu ar y defnydd o fercwri mewn gweithgareddau cloddio aur bychan ac ar ddefnyddio a gwaredu amalgam mercwri ym maes deintyddiaeth.

6. Er mwyn gallu gweithredu Rheoliad yr UE yn effeithiol, mae'r Rheoliadau Gweithredu yn creu nifer o droseddau troseddol a chosbau sifil cyfatebol, mewn perthynas â gweithredu'n groes i'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn Rheoliad yr UE. Mae'r Rheoliadau Gweithredu yn dynodi awdurdodau gorfodi ("*enforcing authorities*") ac awdurdodau cymwys ("*competent authorities*") a'u gwaith nhw yw gorfodi yn erbyn achosion o dorri Rheoliad yr UE, a chyflawni dyletswyddau eraill o dan Reoliad yr UE.

7. Y polisi yw i’r Rheoliadau Gweithredu ddynodi rheoleiddwyr amgylcheddol sy’n bodoli eisoes fel awdurdodau gorfodi a chymwys at ddibenion y rheoliadau. Mewn perthynas â Chymru, y prif awdurdod gorfodi (a’r awdurdod cymwys hefyd) yw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Fel y cyfryw, bydd CNC yn gyfrifol yng Nghymru am erlyn troseddau troseddol neu roi cosbau sifil mewn achosion o dorri Rheoliad yr UE, ynghyd â dyletswyddau gweinyddol sy’n codi o Reoliad yr UE, er enghraifft, mewn perthynas â mewnforio ac allforio mercwri a chynhyrchion mercwri.

8. Bydd cyflawni’r dyletswyddau newydd hyn yn arwain at gostau i CNC, ynghyd â’r awdurdodau gorfodi (cymwys) yng ngweinyddiaethau eraill y DU.

**Darpariaeth i’w gwneud gan y Rheoliadau y gofynnir am gydsyniad ar ei chyfer**

9. Caiff Adran 41 (Pŵer i wneud cynlluniau sy’n codi tâl) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ei diwygio gan reoliad 48 y Rheoliadau Gweithredu. Mae Adran 41 yn rhoi pŵer i reoleiddwyr amgylcheddol wneud cynlluniau codi tâl at amryw o ddibenion amgylcheddol a nodir yn yr adran. Effaith y diwygiad yw gosod darpariaeth ychwanegol yn adran 41, a fydd yn galluogi CNC (ynghyd â rheoleiddwyr yn Lloegr a’r Alban) i wneud cynllun codi tâl i adennill y costau a ysgwyddwyd wrth gyflawni swyddogaethau a bennir gan Reoliad yr UE. Mae Adran 41 yn darparu bod rhaid i gynllun o’r fath gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

10. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 9 uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i’r graddau mae’n ymwneud â diogelu’r amgylchedd, yn cynnwys llygredd, niwsans a sylweddau peryglus, ac atal, lleihau, casglu, rheoli, trin a gwaredu gwastraff o dan baragraff 6 (Amgylchedd) Rhan 1, Atodlen 7, Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Pam mae’n briodol i’r Rheoliadau wneud y ddarpariaeth hon?**

11. Mae’r diwygiad i ddeddfwriaeth sylfaenol yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i CNC adennill costau a ysgwyddwyd wrth gyflawni dyletswyddau newydd a bennir gan Reoliad yr UE a Rheoliadau Gweithredu. Heb yr awdurdod statudol hwn, ni fyddai CNC yn gallu adennill costau’n gyfreithlon, ac o ganlyniad, byddai CNC o dan anfantais ariannol. Mae’r diwygiad yn berthnasol hefyd i’r Scottish Environment Protection Agency ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae diwygiad tebyg wedi’i wneud i ddeddfwriaeth gyfatebol mewn perthynas â Gogledd Iwerddon.

12. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn ei bod hi’n briodol ymdrin â rhoi pŵer i CNC wneud cynllun codi tâl, ochr yn ochr â diwygiadau tebyg ar gyfer y gweinyddiaethau eraill yn y DU, yn y Rheoliadau Gweithredu, oherwydd mae’n fater sy’n deillio o’r pwnc dan sylw yn y Rheoliadau hynny ac mae’n cynnig y dull mwyaf ymarferol a chymesur o wneud y diwygiad

angenrheidiol yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau dull cyffredin mewn perthynas â chynlluniau codi tâl ledled y DU.

13. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn ymwneud â rheoliadau a osodwyd yn Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol sy'n dod yn gyfraith yn awtomatig oni bai bod gwrthwynebiad gan aelod o naill Dŷ'r Senedd. Os na cheir gwrthwynebiad o'r fath, byddai'r rhan o'r rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn dod i rym ar 1 Ionawr 2018.

**Goblygiadau ariannol**

14. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Hannah Blythyn AC**
**Gweinidog yr Amgylchedd**
**Rhagfyr 2017**